GENERAL TEACHING COUNCIL FOR WALES
CYNGOR ADDYSGU CYFFREDINOL CYMRU

COFNODION TRYDYDD CYFARFOD AR DDEG AR HUGAIN CYNGOR ADDYSGU CYFFREDINOL CYMRU

DYDDIAD: 22AIN HYDREF 2008

LLEOLIAD: GWESTY COED Y MWSTWR, LLANGRALLO GER PEN-Y-BONT AR OGWR

Yn Bresennol:
Aelodau:

Mal Davies (Cadeirydd)	Angela Jardine
Jacquie Turnbull (Dirprwy Gadeirydd)	Hélène Mansfield
Phil Bassett	Jane Morris
Tim Cox	Suzanne Nantcurvis
Beth Davies	Sue O'Halloran
Elwyn Davies	Hugh Pattrick
Susan Davies	Jane Setchfield
Roberto De Benedictis	Cleo Sollars
Mike Edwards	Anna Spokes
Ian Guy	Jacky Tonge

Ymddiheuriadau:

Frank Bonello	Sheila Drayton
Gareth Jones	Anne Robertson
Sarah Stockford	

Swyddogion:

Gary Brace	Prif Weithredwr
Hayden Llewellyn	Dirprwy Brif Weithredwr (Cymwysterau, Cofrestru a Safonau Proffesiynol)
Julia Evans	Dirprwy Brif Weithredwr (Cyllid, Personél a Gwasanaethau Corfforaethol)
Karen Evans	Rheolwr Polisi a Chynllunio
Jo Read	Ysgrifenyddes y Cyngor
Amy Pike	Swyddog Gweithredol – Gweinyddiaeth
Richard Skyrme	Swyddog Datblygiad Proffesiynol

1. Croeso a Sylwadau Agoriadol

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i drydydd cyfarfod ar ddeg ar hugain y Cyngor a chadarnhaodd y byddai'r cyfarfod yn cael ei gynnal yn ddwyieithog. Roedd ymddiheuriadau wedi dod i law gan Frank Bonello, Sheila Drayton, Gareth Jones, Anne Robertson a Sarah Stockford.

1.2 Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau newydd, a oedd wedi dechrau tymor eu gwasanaeth ar y Cyngor ar 1af Medi 2008, i'w cyfarfod cyntaf. Aeth ymlaen i groesawu Sarah Bowie (Is-gadeirydd, Cyngor Addysgu Cyffredinol Lloegr) a Glenise Borthwick (Pennaeth Cyfathrebu, Cyngor Addysgu Cyffredinol yr Alban) a oedd yn mynychu'r cyfarfod i arsylwi.

1.3 Yna tynnodd y Cadeirydd sylw'r aelodau at y papurau a oedd wedi'u dosbarthu cyn y cyfarfod a'u cyflwyno ar y bore. Y rhain oedd eitem 21 ar yr agenda (CYNGACC 60 08) *Effaith ariannol gwaith safonau proffesiynol* ac eitem 17 ar yr agenda (CYNGACC 58 08) *adroddiad cynhadledd EUNEC*.

2. Datganiadau o Ddiddordeb

2.1 Cafwyd datganiad diddordeb gan Phil Bassett ar gyfer eitem 11 ar yr agenda *"Cynllun peilot Athro Siartredig – adroddiad cynnydd"*.

3. Gohebiaeth y Cadeirydd

3.1 Tynnodd y Cadeirydd sylw'r aelodau at yr atodiad i eitem 9 ar yr agenda "*Adroddiad cynnydd cyllido Sefydlu a DPC"* (CYNGACC 50/08) sef ymateb gan y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau dyddiedig 16eg Awst 2008. Roedd y llythyr wedi'i anfon mewn ymateb i 3 llythyr a anfonodd y Cadeirydd mewn perthynas â rhaglenni Cyllido Sefydlu a DPC a Datblygiad Proffesiynol, ymestyn rhaglen beilot Athro Siartredig a'r cyngor a roddodd y Cyngor ar haenau 3 a 4 o'i Fframwaith Datblygiad Proffesiynol nad oedd wedi derbyn ymateb iddo eto.

3.2 Aeth y Cadeirydd ymlaen i adrodd ar y cyfarfod blynyddol a fynychodd ef, y Dirprwy Gadeirydd a'r Prif Weithredwr gyda'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ar 16eg Medi 2008. Yn y cyfarfod roedd y Gweinidog wedi ailadrodd manylion ei gohebiaeth ysgrifenedig flaenorol a amlinellodd gyfyngiadau ariannol presennol Llywodraeth y Cynulliad. Adroddodd y Cadeirydd fod cyfarfod ers hynny gyda'r Athro David Hawker, Cyfarwyddwr yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ychydig yn llai cadarnhaol ond bod cynnydd araf yn cael ei wneud yn gyffredinol mewn trafodaethau gyda swyddogion y Cynulliad. Hysbyswyd yr aelodau y byddai adroddiadau manylach yn cael eu darparu yn ystod y cyfarfod ar faterion penodol.

4. Cofnodion drafft cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd 11eg Gorffennaf 2008

4.1 Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod yn gofnod cywir.

Materion yn codi:

4.2 Cofnod 8: Cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Chraffu, 9fed Mehefin 2008: Hysbysodd y Cadeirydd yr aelodau fod Paul Griffiths wedi derbyn gwahoddiad gan y Pwyllgor Archwilio a Chraffu i ymuno fel aelod cyfetholedig o'r pwyllgor na fyddai'n aelod o'r Cyngor ei hun. Byddai'n mynychu ei gyfarfod cyntaf ar 3ydd Rhagfyr 2008.

4.3 Cofnod 15: Safbwynt drafft y Cyngor ar Drefniadau Arolygu yn y Dyfodol: Adroddodd y Cadeirydd ei bod yn ymddangos fod Dr Bill Maxwell, Prif Arolygydd EM, wedi croesawu dogfen gyngor y Cyngor ar drefniadau arolygu yn y dyfodol mewn cyfarfod y gofynnodd ef a'r Prif Weithredwr amdano i gyfleu safbwynt y Cyngor. Ychwanegodd fod Dr Maxwell wedi cyfeirio'n gadarnhaol at safbwynt y Cyngor mewn Gweithdy Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (ADEW) ar 26ain Medi 2008 a fynychwyd hefyd gan y Cadeirydd.

4.4 Cofnod 17: Cynllun Cydraddoldeb Anabledd Diwygiedig: Atgoffwyd yr aelodau y byddai cyflwyniad gan Miranda Evans o Anabledd Cymru yn ystod sesiwn prynhawn cyfarfod y Cyngor.

4.5 Cofnod 19.2: Adroddiadau gan gynrychiolwyr y Cyngor ar grwpiau allanol: Derbyniwyd gohebiaeth gan swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru a gadarnhaodd y byddai'r Cyngor yn cael cynnig lle ar Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweithredu'r Cyfnod Sylfaen. Byddai'r aelodau yn cael eu gwahodd i fynegi diddordeb unwaith i'r gwahoddiad ddod i law.

4.6 Nid oedd unrhyw faterion eraill yn codi.

5. Derbyn hysbysiad am unrhyw faterion y dymunai aelodau eu codi mewn perthynas ag Eitemau a nodir ar yr Agenda 'Er Gwybodaeth' (15 i 17)

5.1 Gofynnodd un aelod am eglurhad ar statws presennol *Adroddiad Blynyddol 2007-08 a Chyfrifon Blynyddol 2007-08* y Cyngor. Adroddodd y Prif Weithredwr fod y ddwy ddogfen wedi'u cyflwyno gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'u bod bellach ar gael yn gyhoeddus.

5.2 Ni chodwyd unrhyw bwyntiau eraill.

6. Cofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Gweithredol a gynhaliwyd 15fed Medi 2008.

6.1 Cyflwynwyd y cofnodion hyn gan y Prif Weithredwr a chynghorodd yr aelodau y byddai bron bob mater yn cael ei drafod ar agenda'r cyfarfod.

Materion yn codi:

6.2 Cofnod 6: Cynhadledd Ryngwladol y Cynghorau Addysgu 2009: Tynnwyd sylw'r aelodau at gofnod manwl y cynnydd ar drefniadau ar gyfer Cynhadledd Ryngwladol y Cynghorau Addysgu a fyddai'n cael ei chynnal ar 24-26 Mehefin 2009. Soniodd un aelod am drafferthion yn cyrchu'r wefan ar un achlysur. Cadarnhaodd swyddogion fod y safle bach yn gweithredu a bod cynadleddwyr o dramor wedi bod yn defnyddio'r profformâu ar-lein i gofnodi eu hawydd i fynychu.

6.3 Cofnod 7: Cynllun Iaith Gymraeg – adroddiad monitro 6 misol: Atgoffodd y Prif Weithredwr yr aelodau mai'r Prif Weithredwr oedd yn goruchwylio cynllun y Cyngor. Yna tynnodd sylw at yr ymarfer yn y swyddfa a weithredwyd gyda galwyr a oedd yn dymuno trafod eu busnes yn Gymraeg wrth gysylltu â'r Cyngor dros y ffôn. Roedd yr ymarfer wedi dod i'r casgliad bod mwyafrif helaeth y siaradwyr Cymraeg a oedd yn ffonio yn fodlon ar lefel y gwasanaeth a ddarparwyd.

6.4 Nid oedd unrhyw faterion eraill yn codi.

6.5 Nodwyd y cofnodion heb eu cadarnhau.

7. Cofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Polisi a gynhaliwyd 15fed Medi 2008

7.1 Wrth gyflwyno'r cofnodion hyn, cynghorodd y Prif Weithredwr yr aelodau y byddai'r rhan fwyaf o'r materion yn cael eu trafod ar agenda'r cyfarfod.

Materion yn codi:

7.2 Cofnod 3: Strategaeth y Gweithlu Plant a Phobl Ifanc i Gymru - ymgynghoriad: Hysbyswyd yr aelodau bod ymateb y Cyngor wedi'i gwblhau a'i fod wedi'i gynnwys ar eitem 16 ar yr agenda yn y papurau *Er Gwybodaeth*.

7.3 Cofnod 7: Data Recriwtio a Chadw Athrawon yng Nghymru: Tynnwyd sylw at y papur gwybodaeth a drafodwyd gan y Pwyllgor Polisi.

7.4 Cofnod 8: Trefnu Darpariaeth Athrawon Cyflenwi yng Nghymru: Soniodd y Prif Weithredwr am y papur gwybodaeth hwn a roddodd ddadansoddiad o'r data sydd ar gael i'r Cyngor ar y ffordd y caiff darpariaeth athrawon cyflenwi ei threfnu. Roedd y canfyddiadau'n ddiddorol am eu bod yn darparu darlun gwahanol i dystiolaeth anecdotaidd flaenorol. Roedd y papur gwybodaeth ar gael i'r aelodau a gellid ei gael gan swyddogion ar gais.

7.5 Gofynnodd un aelod am eglurhad a oedd y Cyngor wedi'i wahodd i ymateb i'r *Mesur Dysgu a Sgiliau* am ei fod yn pryderu am y goblygiadau i'r proffesiwn addysgu yng Nghymru. Cynghorodd y Prif Weithredwr nad oedd gwahoddiad wedi dod i law ond rhoddodd sicrwydd i'r aelod y byddai swyddogion yn rhagweithiol yn hyn o beth. Roedd Karen Evans (Rheolwr Polisi a Chynllunio) wedi mynychu *Seminar Trawsnewid Addysg* ar 8fed Hydref 2008. Yn olaf, adroddodd aelod arall fod y *Pwyllgor Menter a Dysgu* wedi bod yn casglu tystiolaeth ac y gallai swyddogion y Cyngor gael cysylltiad posibl.

7.6 Nid oedd unrhyw faterion eraill yn codi.

7.7 Nodwyd y cofnodion heb eu cadarnhau.

8. Cofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Cofrestru a gynhaliwyd 17eg Medi 2008

8.1 Cyflwynwyd y cofnodion hyn i'r Cyngor yn fras gan Hugh Pattrick, a esboniodd y byddai'r rhan fwyaf o'r eitemau'n cael eu trafod yn yr agenda. Amlygodd nifer o bwyntiau.

Materion yn codi:

8.2 Cofnod 3.4: Diweddariad ar Gofrestru, SAC a Sefydlu: Tynnwyd sylw'r aelodau at drafodaeth a gafwyd yn y Pwyllgor Cofrestru mewn perthynas â nifer yr athrawon cymwys a oedd yn mynd i swyddi Cynorthwywyr Addysgu am nad oeddent yn gallu cael swyddi a fwriadwyd ar gyfer athrawon cymwys.

8.3 Cofnod 3.8: Gweinyddu a Dyfarnu SAC: Roedd aelodau'r Pwyllgor Cofrestru wedi cael sicrwydd bod tystysgrifau SAC ond yn cael eu cyhoeddi i athrawon cymwys ar 30ain Gorffennaf 2008 oherwydd y dyddiad a nodwyd yn rheoliadau'r Cynulliad (1af Awst).

8.4 Cofnod 5: Aelodaeth Pwyllgorau Safonau Proffesiynol a gwneud penderfyniadau: Aeth y Prif Weithredwr ymlaen i dynnu sylw at y trafodaethau a gafwyd yn dilyn y penderfyniadau a wnaed 'mewn egwyddor' gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar 11eg Gorffennaf 2008 ynghylch aelodaeth paneli a chysondeb wrth wneud penderfyniadau. Byddai gwaith pellach yn mynd rhagddo a byddai trafodaethau pellach yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Cofrestru ar 5ed Rhagfyr 2008.

8.5 Cwestiynodd un aelod gofnod drafft 5.5. Nid oedd ganddo gof bod mwyafrif y Pwyllgor o'r farn nad oedd angen "cyfranogiad Cadeirydd y Pwyllgor" wrth derfynu achosion lle ystyriwyd nad oedd angen "unrhyw gamau pellach". Cadarnhaodd Cadeirydd y Pwyllgor nad oedd unrhyw benderfyniad wedi'i wneud a rhoddodd Hayden Llewellyn (Dirprwy Brif Weithredwr, Cymwysterau, Cofrestru a Safonau Proffesiynol Athrawon) sicrwydd nad oedd unrhyw newidiadau gweithdrefnol wedi'u gwneud. Gwahoddodd Cadeirydd y Cyngor i Gadeirydd y Pwyllgor Cofrestru ymdrin â'r anghydfod mewn perthynas â'r cofnod yng nghyfarfod nesaf y pwyllgor ar 5ed Rhagfyr 2008.

8.6 Gofynnodd aelod arall am eglurhad ynghylch a oedd cylch gorchwyl y Pwyllgor Cofrestru'n caniatáu i benderfyniad o'r fath gael ei wneud heb ei gyfeirio at y Cyngor. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr y gallai wneud penderfyniad petai'r Cyngor wedi dirprwyo mater o'r fath. Fodd bynnag, roedd wedi gofyn i'r Pwyllgor Cofrestru

ymgymryd â'r gwaith manwl ynghylch newid aelodaeth a gwneud penderfyniad ac adrodd yn ôl i'r Cyngor gydag argymhellion maes o law.

8.7 Nid oedd unrhyw faterion eraill yn codi.

8.8 Nodwyd y cofnodion heb eu cadarnhau.

9. Rhaglen Gyllido Sefydlu a DPC – adroddiad cynnydd (CYNGACC 50/08)

9.1 Cyflwynwyd yr adroddiad hwn gan Hayden Llewellyn (*Dirprwy Brif Weithredwr, Cymwysterau, Cofrestru a Safonau Proffesiynol Athrawon*), a dynnodd sylw at y cynnydd a wnaed yn setlo taliadau i ysgolion ar gyfer cyllido Sefydlu a DPC athrawon yng Nghymru.

9.2 Roedd y Cyngor wedi derbyn cyfrifioldeb am weinyddu cyllid Sefydlu a DPC yng Nghymru ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru ar 1af Medi 2006. Ers hynny, roedd bron i £10 miliwn wedi'i dalu i ysgolion mewn perthynas â chyllido Sefydlu athrawon ac ychydig dros £3 miliwn ar gyfer cyllid DPC.

9.3 Hysbyswyd yr aelodau bod proffil taliadau wedi'i gofnodi a bod y rhain yn cadarnhau bod y ddwy ffrwd gyllid bellach yn ymsefydlu. Ychwanegodd fod mwyafrif y taliadau yn yr arfaeth ar gyfer y ddwy ffrwd bellach wedi'u talu a bod yr ymholiadau nad oeddent wedi'u datrys hyd yma'n fach eu nifer ac yn cael eu gweithredu gan swyddogion y Cyngor.

9.4 Aeth Hayden Llewellyn ymlaen i gadarnhau bod y diffyg yn y cyllid grant gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer blwyddyn weithredol 2008-09 yn dal i fodoli. Roedd yr aelodau wedi derbyn adroddiad i'r perwyl hwn yng nghyfarfod y Cyngor ar 11eg Gorffennaf 2008. Er bod y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau wedi ymrwymo y byddai'r diffyg yn cael ei dalu eleni ac mewn blynyddoedd yn y dyfodol, roedd yn golygu bod gofyn i swyddogion gwblhau rhagolygon o'r gwariant a ragfynegwyd yn ystod y flwyddyn.

9.5 Yn olaf, cynghorwyd yr aelodau bod swyddogion yn parhau i weithio'n agos ag AALlau, ysgolion ac athrawon. Roedd sesiynau a gynhaliwyd gyda mentoriaid a phenaethiaid yn werthfawr i ANG.

9.6 Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau bod swyddogion y Cynulliad, hyd yma, wedi gwrthod cynyddu lefel y cyllid grant i'r Cyngor ar gyfer cyllido Sefydlu a DPC athrawon yng Nghymru. Roedd hyn er gwaethaf y ffaith bod y Cyngor wedi darparu amcangyfrif cywir o'r swm cywir roedd ei angen. Roedd swyddogion y Cynulliad yn dymuno cadw'r 'balans' rhwng y swm a gyllidebwyd a'r swm gwirioneddol roedd ei angen i ateb anghenion yn ystod y flwyddyn.

9.7 Dywedodd un aelod fod y sefyllfa'n ymddangos fel petai'n cwestiynu a oedd y Cyngor yn bodoli'n gwbl annibynnol ar Lywodraeth Cynulliad Cymru. Anogwyd swyddogion i gyflwyno achos y Cyngor i swyddogion y Cynulliad i'r gyllideb lawn gael ei chynnwys unwaith eto.

9.8 Llongyfarchwyd swyddogion y Cyngor gan un aelod am weinyddu'r rhaglenni cyllido'n effeithlon. Roedd yr aelodau'n cytuno.

9.9 Roedd yr aelodau'n fodlon nodi'r adroddiad ac ni chodwyd unrhyw bwyntiau eraill.

10. Rhaglen Gyllido DPP (CYNGACC 51/08)

10.1 Hayden Llewellyn (*Dirprwy Brif Weithredwr, Cymwysterau, Cofrestru a Safonau Proffesiynol Athrawon*), a gyflwynodd y papur hwn, a roddodd adroddiad cynnydd i'r aelodau ar waith y Cyngor yn gweinyddu'r Rhaglen Gyllido Datblygiad Proffesiynol ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru.

10.2 Roedd swm o £2.978 miliwn ar gael i'r Cyngor ar gyfer blwyddyn gyllido 2008-09, y clustnodwyd £360,000 ohono i dalu am gost peilota'r rhaglen Athro Siartredig yng Nghymru. Gan ystyried y costau gweinyddu a'r gweithgareddau lledaenu, roedd tua £2.4 miliwn ar gael i'w ddyrannu.

10.3 Fodd bynnag, roedd yr holl gyllid wedi'i ddyrannu erbyn dydd Gwener 10fed Hydref 2009 ac o ganlyniad roedd y rhaglen gyllido wedi'i chau.

10.4 Mewn cyfarfod o'r Cyngor ar 11eg Gorffennaf 2008, roedd yr aelodau wedi'u hysbysu o'r nifer uchel o geisiadau a dderbyniwyd hyd y dyddiad hwnnw a'r ffaith bod swyddogion y Cynulliad wedi nodi y byddai'n annhebygol y byddai cyllid ychwanegol 'yn ystod y flwyddyn' yn cael ei ddarparu fel oedd wedi digwydd yn y gorffennol. Roedd hyn oherwydd pwysau ar gyllidebau'r Cynulliad.

10.5 Adroddodd Hayden Llewellyn fod llythyrau wedi'u hanfon at bob pennaeth fel y gallent hysbysu'r holl staff addysgu a'r holl randdeiliaid allweddol fel AALlau, undebau athrawon, sefydliadau AHCA a phartïon eraill â diddordeb ar 10fed Hydref 2008. Rhoddwyd sicrwydd i'r aelodau bod neges wedi'i chyfleu'n gynnar iawn ynghylch yr angen i gau'r rhaglen. Nifer fach iawn o geisiadau a dderbyniwyd ers hynny ac roedd staff y Cyngor wedi ymdrin â'r rhain yn briodol.

10.6 Gan symud ymlaen i weddill y papur, tynnwyd sylw'r aelodau at y gwerthusiad a'r dadansoddiad 5 mlynedd o'r rhaglen gyllido a'r cynigion i'w trafod, sef i fireinio a diwygio'r meini prawf Cyllido DPP ar gyfer 2009-10.

10.7 Gwahoddwyd yr aelodau i gyflwyno sylwadau a chodi cwestiynau. Gofynnodd un aelod i ohebiaeth o'r fath ynghylch cau un o raglenni cyllido'r Cyngor gael ei dosbarthu i aelodau er gwybodaeth yn y dyfodol. Nodwyd y cais hwn. Esboniodd y Prif Weithredwr fod y papurau ar gyfer cyfarfod y Cyngor wedi'u dosbarthu ar yr un diwrnod a'u bod yn cynnwys y llythyr dan sylw er gwybodaeth i'r aelodau.

10.8 Croesawodd nifer o aelodau'r cynigion i ddiwygio'r meini prawf cyllido ar gyfer rhaglen 2009-10. Trafododd yr aelodau y mater hirdymor o gyrchu'r cyllid yn amhriodol ar gyfer cyrsiau DPP y gellid eu hystyried yn rhai 'cynnal'. Derbyniwyd y byddai bob amser yn anodd i'r Cyngor wybod a oedd rhai cyrsiau at ddiben datblygiad unigol neu'n hytrach i gynorthwyo ysgol i ateb ei blaenoriaethau ei hun. Fodd bynnag, roedd yn rhaid ystyried ceisiadau yn ôl eu rhinweddau ar yr olwg gyntaf a chydnabuwyd nad oedd ymgeiswyr a phenaethiaid bob amser yn sicrhau bod cynigion yn cael eu llunio ar gyfer anghenion datblygiad unigolion.

10.9 Barn un aelod oedd bod y Cyngor yn ymddangos fel petai'n derbyn y clod pan oedd pethau'n mynd yn dda ac yn beio Llywodraeth Cynulliad Cymru pan oedd pethau'n mynd o chwith. Roedd aelod arall yn cofio pryderon a fynegwyd i'r Gweinidog Addysg a Dysgu Gydol Oes blaenorol ynghylch crebachu'r cyllid a oedd ar gael i ysgolion. Gan ystyried agenda bresennol y llywodraeth yng Nghymru, a oedd yn cynnwys cyflwyno'r fframwaith Sgiliau, y Cyfnod Sylfaen a mentrau 14-19, roedd o'r farn nad oedd digon o arian yn cael eu cynnig ar gyfer hyfforddiant i athrawon.

10.10 Dywedodd aelod arall fod gan athrawon yng Nghymru hawl i gael eu paratoi ar gyfer yr amrywiol fentrau a oedd yn cael eu cyflwyno. Awgrymodd y gallai'r Cyngor nodi i swyddogion y Cynulliad yr angen am gyllid digonol er mwyn i ddyheadau Llywodraeth Cynulliad Cymru a datblygiad proffesiynol unigolion gael eu bodloni. Roedd aelodau eraill yn cytuno y dylid cynnal trafodaethau pellach gyda swyddogion y Cynulliad i ddarparu cyllid ychwanegol ar gyfer hyfforddiant 'cynnal'. Cynigiwyd barn arall ynghylch y diffyg rheolaeth a fyddai gan y Gweinidog dros gyllidebau a ddirprwywyd i AALlau a phartïon tebyg a'r gwrthdaro presennol rhwng rhaglenni Llywodraeth Cynulliad Cymru ac AALlau.

10.11 Wrth ddiwygio meini prawf y rhaglen, cydnabu un aelod nad oedd gan y Cyngor unrhyw ddewis ond i leihau nifer y bobl a fyddai'n derbyn y cyllid sydd ar gael ond pwysodd i oblygiadau pob newid gael eu hystyried yn ofalus.

10.12 Lleisiodd un aelod ei phryder y byddai'r eglurder dyfnach yn galluogi athrawon i wneud penderfyniadau wrth ddewis gwneud cais am gyllid gan y Cyngor. Ar ôl treulio blynyddoedd lawer yn codi ymwybyddiaeth, roedd perygl y gallai athrawon yng Nghymru golli diddordeb yn y rhaglen.

10.13 Llongyfarchwyd staff CyngACC am ddyrannu cyllideb y flwyddyn gyllido hon. Cafwyd awgrym hefyd y dylid defnyddio cyhoeddusrwydd i hyrwyddo'r rhaglen i athrawon yng Nghymru a chadarnhau'r ffaith bod y rhaglen yn ymwneud â datblygiad proffesiynol parhaus â ffocws unigol.

10.14 Yn ystod y drafodaeth, atgoffodd y Prif Weithredwr yr aelodau am y safbwynt cydlynol ar gyllid yng Nghymru, a nodwyd eisoes yn rhan o gyngor y Cyngor ar Fframwaith Datblygiad Proffesiynol yn 2005, a roddodd fanylion am yr angen am ymagwedd gydlynol at gyllid DPP ar lefelau unigol, lleol a chenedlaethol ac ar gyfer hyfforddiant 'cynnal'.

10.15 Gwahoddodd y Cadeirydd yr aelodau i roi cyfeiriad ynghylch diwygio'r meini prawf cyllido ar gyfer rhaglen 2009-10 am y byddai angen cwblhau hyn cyn diwedd Tachwedd 2008. Fodd bynnag, byddai angen cynnal trafodaethau manwl pellach a chytunodd yr aelodau y dylid cyfeirio'r mater at y Pwyllgor Gweithredol ar ôl cynnal y drafodaeth honno. Yn ogystal, byddai aelodau'r Cyngor yn cael eu gwahodd i gyflwyno'u sylwadau i Hayden Llewellyn cyn cyfarfod y Pwyllgor Gweithredol nesaf.

10.16 Awgrymodd un aelod y gellid sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen, yn ogystal â throsglwyddo'r mater i'r Pwyllgor Gweithredol gyda'r materion tymor byr, i ymdrin â'r materion tymor hwy ar gyfer y rhaglen 2010-11. Roedd yr aelodau hefyd yn cytuno y gellid ystyried gwahodd grwpiau partner fel Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (ADEW).

<u>Diwygiadau i'r meini prawf cyllido ar gyfer 2009-10</u>

10.17 Yna gofynnodd yr aelodau am eglurhad ar rai o'r diwygiadau arfaethedig i'r meini prawf ar gyfer y flwyddyn gyllido 2009-10, yn arbennig y cynnig i leihau ei gefnogaeth i rywfaint o'r ddarpariaeth ar gyfer arweinwyr canol, neu'r ddarpariaeth gyfan. Esboniodd Hayden Llewellyn fod gan nifer o AALlau ddarpariaeth weithgar iawn a oedd yn cynnwys nifer o athrawon a oedd yn dilyn hyfforddiant Arweinwyr Canol. Er bod yr hyfforddiant yn cael ei arwain gan yr AALlau, roedd yn cael ei gyllido gan amlaf gan fwrsarïau'r Cyngor ac awgrymwyd y gallai rhaglen Athro Siartredig y Cyngor ddisodli'r gefnogaeth ar gyfer y math hwn o ddarpariaeth i arweinwyr canol yn y dyfodol. Roedd yn ymddangos hefyd bod cyllid ar gael yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer y maes datblygiad hwn.

10.18 Awgrymodd y Dirprwy Gadeirydd y gellid cynnwys diffiniad yn *llyfryn Gwybodaeth y Rhaglen Gyllido DPP* yn rhoi manylion o amgyffrediad y Cyngor o ddatblygiad personol. Yn ddiweddarach yn y drafodaeth nododd hefyd y byddai'n bwysig gwneud athrawon yn ymwybodol y byddai cyllid ar gael yn y dyfodol ond bod angen cyflawni arbedion yn y tymor byr.

10.19 Gan gyfeirio at y rhestr o ddiwygiadau posibl, cynigiodd yr aelodau'r sylwadau canlynol: mae'n bosibl na fyddai'n ddichonol lleihau ei gefnogaeth ar gyfer 'peth' darpariaeth arweinwyr canol neu'r ddarpariaeth gyfan; y dylid osgoi colli cyllid ar gyfer diwrnod cyflenwi ychwanegol er mwyn i unigolion adfyfyrio am eu gweithgarwch DPP ac y gellid gwneud penderfyniad radical i beidio â chyllido unrhyw gyrsiau a oedd yn cefnogi diweddaru meysydd llafur arholiadau, fodd bynnag, nid oedd hyn yn fater clir. Ni fyddai'r diffiniad o ddatblygiad personol yn gyson i bawb.

10.20 Wedi rhoi cyfeiriad, roedd yr aelodau'n fodlon i fater y meini prawf cyllido ar gyfer rhaglen 2009-10 gael ei drosglwyddo i'r Pwyllgor Gweithredol. Byddai cyfarfod ychwanegol yn cael ei gynnull.

10.21 Ni chodwyd unrhyw faterion eraill.

11. Cynllun peilot Athro Siartredig – adroddiad cynnydd (CYNGACC 52/08)

11.1 Ar ôl datgan ei ddiddordeb yn gynharach, ni chymerodd Mr Phil Bassett unrhyw ran yn y drafodaeth hon.

11.2 Rhoddodd Hayden Llewellyn (*Dirprwy Brif Weithredwr, Cymwysterau, Cofrestru a Safonau Proffesiynol Athrawon*) ddiweddariad ar y maes hwn yng ngwaith y Cyngor, a gwahoddodd yr aelodau i nodi'r cynnydd a wnaed. Roedd 4 modiwl pellach wedi cychwyn a byddai modiwl cyntaf *Arwain y Dysgu* yn dechrau yng Nghonsortiwm De Orllewin a Chanolbarth Cymru (SWAMWAC) ar 6ed Tachwedd 2008. Roedd tua hanner y cynllun peilot a ddechreuodd ar 29ain Chwefror 2008, wedi'i gwblhau.

11.3 Yn rhan o'i Fframwaith Datblygiad Proffesiynol roedd y Cyngor wedi datblygu rhaglen i athrawon yng Nghymru ennill statws siartredig. Roedd cynllun peilot y rhaglen hon wedi dechrau ym mis Medi 2007.

11.4 Tynnwyd sylw'r aelodau at y trefniadau ar gyfer prif-ffrydio'r rhaglen Athro Siartredig yng Nghymru, gan amlygu'r amserlen arfaethedig a fyddai'n galluogi prif-ffrydio erbyn mis Medi 2010 ar y cynharaf. Rhoddodd fanylion y gwaith paratoi y byddai angen ei wneud, gan gynnwys yr amserlen ar gyfer dwyn y dogfennau drafft gerbron y Pwyllgor Polisi a'r Cyngor er mwyn eu trafod a'u cymeradwyo.

11.5 Gofynnwyd cwestiwn ynghylch nifer yr athrawon nad oeddent wedi cwblhau modiwlau. Adroddodd Hayden Llewellyn fod 8 neu 9 o athrawon ar gyfartaledd fel arfer yn cwblhau eu modiwlau, allan o'r 10 a oedd yn dechrau. Am resymau personol yn aml yr oedd pobl yn 'tynnu allan' er bod rhai nad oeddent yn mynychu ar y diwrnod cyntaf er gwaethaf y ffaith y cysylltwyd â nhw ymlaen llaw i gadarnhau eu presenoldeb. Rhoddwyd sicrwydd y câi data o'r fath ei ddadansoddi a'i fwydo i mewn wrth brif-ffrydio'r rhaglen. Cytunodd Hayden Llewellyn i ddarparu gwybodaeth bellach am nifer y rhai a dynnodd allan o bob modiwl i'r aelod a holodd.

11.6 Aeth yr aelod ymlaen i leisio'i bryder am y bwriad i brif-ffrydio'r rhaglen Athro Siartredig cyn i'r holl gynlluniau peilot gael eu cwblhau a chyn cynnal y gwerthusiad. Cadarnhaodd y Cadeirydd na fyddai unrhyw frys i gyflwyno'r rhaglen.

11.7 Roedd yr aelodau'n fodlon nodi'r adroddiad ac ni chodwyd unrhyw bwyntiau eraill.

12. Cod Ymddygiad ac Arfer Gorau (Diwygiedig) i Aelodau (CYNGACC 53/08)

12.1 Wrth gyflwyno'r papur hwn, atgoffodd y Prif Weithredwr yr aelodau o'r trafodaethau blaenorol a gafwyd mewn perthynas â Chod yr Aelodau yng Nghyfarfodydd y Cyngor ym mis Mai a mis Gorffennaf 2008. Hysbyswyd yr aelodau bod Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Chraffu wedi'i wahodd i fynychu cyfarfod y Pwyllgor Gweithredol ar 15fed Medi 2008 a chymryd rhan yn y drafodaeth ar y Cod am nad oedd unrhyw gyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a Chraffu wedi'i drefnu rhwng cyfarfodydd y Cyngor ym mis Gorffennaf a mis Hydref.

12.2 Roedd y papur yn cynnig Cod Ymddygiad ac Arfer Gorau diwygiedig i Aelodau a gwahoddwyd yr aelodau i'w ystyried a'i fabwysiadu os tybiwyd ei fod yn briodol.

12.3 Gan amlygu'r prif newidiadau i'r testun, tynnodd y Prif Weithredwr sylw hefyd at argymhelliad y Pwyllgor Gweithredol i'r aelodau dderbyn hyfforddiant ar faterion llywodraethu corfforaethol yng nghyfarfod nesaf y Cyngor ar 6ed Chwefror 2009. Roedd archeb dros dro wedi'i gwneud i'r perwyl hwn.

12.4 Gofynnodd un aelod am eglurhad a fyddai'r Cod diwygiedig yn unol â *Pholisi Chwythu'r Chwiban* y Cyngor. Cynghorodd y Prif Weithredwr fod y *Polisi Chwythu'r Chwiban* yn berthnasol i staff y Cyngor yn unig. Nid oedd unrhyw *Bolisi Chwythu'r Chwiban* yn bodoli ar gyfer aelodau'r Cyngor.

12.5 Yna cafwyd trafodaeth lle mynegwyd nifer o bwyntiau a safbwyntiau. Nododd un aelod ei bryder nad oedd y papur wedi cynnwys geiriad gwreiddiol y Cod. Nid oedd hyn yn o gymorth yn ei dyb ef am y credai na fyddai aelodau newydd o'r Cyngor, a oedd yn bresennol yn eu cyfarfod cyntaf, yn ymwybodol o'r geiriad blaenorol. Rhoddodd y Prif Weithredwr eglurhad, gan adrodd bod yr aelodau a oedd yn newydd i'r Cyngor wedi derbyn copi o'r Cod presennol yn rhan o'u pecyn sefydlu.

12.6 Gan gyfeirio at yr adran yn y ddogfen arfaethedig a oedd yn rhoi manylion y 'rhwymedigaeth bosibl i sefydliadau allanol', aeth yr aelod ymlaen i wneud sylw y byddai'n effeithio ar nifer fawr o aelodau o'r Cyngor. Mynegodd ei farn bod y testun yn dangos diffyg hyder yn y ffordd roedd y Cyngor yn gweithredu. Yna mynegodd aelod arall ei barn ei fod yn beth cadarnhaol bod y Cyngor yn cynnal trafodaethau gonest ac agored ac na ddylid llesteirio'r rhain. Ychwanegodd fod yn rhaid i aelodau gymryd cyfrifoldeb ar y cyd.

12.7 Darparodd aelodau eraill nifer o sylwadau ar y diwygio arfaethedig. Y prif bwyntiau oedd: mai mater o gydwybod ydoedd ac mai cyfrifoldeb unigolyn oedd bod yn ymwybodol o wrthdaro posibl; na fyddai'r ffaith bod gan rywun fudd ariannol yn eu heithrio rhag cymryd rhan mewn trafodaeth; bod angen hyfforddiant ar Lywodraethu Corfforaethol; bod y Cod diwygiedig yn glynu wrth egwyddorion Nolan a bod canllawiau tebyg yn eu lle ar gyfer aelodau ar gyrff tebyg. Cafwyd barn gan aelod arall y dylai aelodau fod wedi bod yn glynu wrth y polisi presennol ers dod yn aelodau.

12.8 Gwahoddodd y Cadeirydd yr aelodau i gytuno i fabwysiadu'r Cod Ymddygiad ac Arfer Gorau diwygiedig i Aelodau. Ac eithrio un aelod, cytunodd yr aelodau i fabwysiadu'r ddogfen ddiwygiedig. Yna cytunodd yr aelodau y dylid trefnu sesiwn hyfforddiant ar Lywodraethu Corfforaethol ar gyfer 6ed Chwefror 2009.

12.9 Ni chodwyd unrhyw bwyntiau eraill.

13. Safbwynt drafft y Cyngor ar Broffesiynoli'r Gweithlu AB (CYNGACC 54/08)

13.1 Cafwyd cyflwyniad byr i'r papur hwn gan y Prif Weithredwr a gwahoddodd yr aelodau i fabwysiadu'r safbwynt arfaethedig ar broffesiynoli addysgu mewn AB a strategaeth i ddenu cefnogaeth i safbwynt y Cyngor.

13.2 Yng ngoleuni Llwybrau Dysgu 14-19 ac yn dilyn adroddiad Adolygiad Syr Adrian Webb, bu'r Cyngor yn gweithio i ddatblygu a chytuno ar safbwynt ar broffesiynoli addysgu yn y sector Addysg Bellach. Yn dilyn trafodaethau yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Polisi ym mis Mehefin a Medi, roedd y papur safbwynt arfaethedig wedi'i fireinio a chafodd ei gyflwyno gerbron y Cyngor i'w drafod.

13.3 Esboniodd y Prif Weithredwr y byddai angen gofyn am gymorth gan Lywodraeth Cynulliad Cymru cyn mynd ymlaen i ddenu cefnogaeth i safbwynt y Cyngor drwy ailgydio mewn trafodaethau gyda *fforwm*, sefydliad y cyflogwyr AB; agor trafodaethau gyda UCU a'r undebau AB eraill a chynnal trafodaethau gyda'r Dirprwy Weinidog dros Sgiliau. Byddai angen deddfwriaeth sylfaenol petai'r Cyngor yn cael ei wahodd i ymgymryd â'r gwaith o reoleiddio'r gweithlu AB ond byddai hyn yn cymryd peth amser i ddod i rym.

13.4 Croesawodd y Cadeirydd y papur, ac awgrymodd fod angen set gyffredin o safonau ar gyfer athrawon a darlithwyr AB, yn arbennig o ganlyniad i'r datblygiadau yn y sector 14-19. Gwahoddwyd yr aelodau i godi cwestiynau.

13.5 Lleisiodd un aelod ei bryder mewn perthynas â'r Crynodeb Gweithredol a nododd gyfartaledd cyflogau rhwng athrawon ysgol ac athrawon AB. Ei farn ef oedd nad oedd yr elfennau tebyg rhwng y graddfeydd cyflog mor eglur â hynny a bod amodau gwasanaeth gwahanol.

13.6 Mewn ymateb, soniodd y Cadeirydd am amgyffrediad y cyhoedd. Yn arbennig dywedodd nad oedd rhieni pobl ifanc 14-19 yn gweld unrhyw wahaniaeth rhwng athrawon ysgol ac athrawon AB, a'u bod yn disgwyl i'w plant gael eu haddysgu gan athrawon a oedd yn ddarostyngedig i'r un set o safonau.

13.7 Cytunodd yr aelodau y dylid gwneud gwaith pellach i gynnwys cyfeiriadau at y polisi '*Trawsnewid Addysg'.* Cytunwyd hefyd y gallai fod angen datblygu papur safbwynt ar wahân ar effaith y polisi *Trawsnewid Addysg*.

13.8 Cytunodd y Prif Weithredwr y gallai fod angen papur ar wahân ar *Trawsnewid Addysg,* fodd bynnag, roedd y papur a oedd yn cael ei drafod ar hyn o bryd yn benllanw cyflwyniad cychwynnol i Adolygiad Webb y rhoddwyd cryn ystyriaeth iddo ac na ddylai fod angen ei newid yn sylweddol i gynnwys cyfeiriadau at y *Mesur Dysgu a Sgiliau* a *Trawsnewid Addysg.*. Rhoddodd sicrwydd i'r aelodau y byddai gwaith pellach yn cael ei wneud ac y câi safbwynt diwygiedig ei gyflwyno gerbron y Pwyllgor Polisi i'w drafod yn ei gyfarfod ar 3ydd Rhagfyr 2008. Atgoffodd yr aelodau fod y cyn-Weinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes, Jane Davidson, wedi penderfynu y dylid ymchwilio i'r goblygiadau o ran deddfwriaeth a dulliau cyflwyno os byddai'r Cyngor yn cymryd y gwaith o weithredu fel y corff proffesiynol ar gyfer y sector ôl-orfodol a honnodd fod y safbwynt drafft yn ymafael â dyheadau o'r fath. Roedd y Dirprwy Gadeirydd yn cefnogi papur safbwynt a ddylai agor trafodaeth lawn a chanolbwyntio ar anghenion Cymru.

13.9 Cafwyd nifer o awgrymiadau gan yr aelodau i'w cynnwys yn y papur diwygiedig, sef: y dylid cynnwys cyfeiriadau at ddogfennau diweddar y llywodraeth; y dylid adlewyrchu'r hinsawdd bresennol o newid sylweddol a hynny ar draws sectorau ac y byddai angen datblygu'r safbwynt o bersbectif rheoleiddio. Yn olaf, nododd un aelod yr angen i ystyried yr amrywiaeth o safonau yr oedd angen i sefydliadau AHCA eu haddysgu a oedd yn cynnwys safonau LLUK ynghyd â SAC.

13.10 Gwahoddodd y Cadeirydd yr holl aelodau i drosglwyddo'u sylwadau a'u hawgrymiadau ar ddiwygio safbwynt y Cyngor ar broffesiynoli addysgu yn y sector AB i'r Prif Weithredwr. Byddai mater *'Trawsnewid Addysg',* gan gynnwys y *Mesur Dysgu a*

Sgiliau a'r *Strategaeth 14-19* yn cael eu cynnwys ar agenda cyfarfod nesaf y Pwyllgor Polisi ar 3ydd Rhagfyr 2008.

13.11 Ni chodwyd unrhyw faterion eraill.

14. Safbwynt drafft y Cyngor ar Achredu Addysg a Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon (AHCA) (CYNGACC 55/08)

14.1 Cyflwynwyd y papur safbwynt drafft hwn gan Karen Evans (*Rheolwr Polisi a Chynllunio*) ar achredu cyrsiau AHCA a'r gobaith oedd y byddai'n hysbysu unrhyw strategaeth ymgysylltu â gwleidyddion a phobl eraill a oedd yn dylanwadu ar newidiadau mewn polisi a newid deddfwriaethol posibl.

14.2 Er mwyn galluogi i ddadl resymegol gael ei datblygu mewn perthynas ag anghysondebau amlwg yr ymagwedd bresennol at achredu AHCA yng Nghymru (o'i gymharu ag ymagwedd cyrff proffesiynol eraill), cytunwyd y dylid llunio dadansoddiad o rolau cyrff proffesiynol mewn perthynas â chymeradwyo neu achredu addysg a hyfforddiant cychwynnol. Tynnwyd sylw'r aelodau at yr atodiad yn y papur a oedd yn rhoi manylion y gymhariaeth.

14.3 Gwahoddwyd yr aelodau i ystyried y safbwynt, a gafodd ei ddiwygio gan y Pwyllgor Polisi yn ei gyfarfod ar 15fed Medi 2008, a'i fabwysiadu os tybiwyd bod hynny'n briodol. Cafwyd cynnig hefyd, os yn briodol, i ofyn i'r Pwyllgor Polisi ddatblygu strategaeth i ddenu cefnogaeth i'r safbwynt.

14.4 Roedd yr aelodau'n fodlon i safbwynt y Cyngor gael ei ddatblygu a chytunwyd y dylid ei fabwysiadu. Cafwyd cydsyniad hefyd i'r Pwyllgor Polisi ddatblygu'r strategaeth i ddenu cefnogaeth i'r safbwynt.

14.5 Nid oedd unrhyw bwyntiau pellach i'w hegluro ac roedd yr aelodau'n fodlon ar yr adroddiad diweddaru.

15. Unrhyw fater arall

15.1 Tynnodd y Cadeirydd sylw'r aelodau at Ddarlith Addysg Cymru a gâi ei thraddodi gan y Farwnes Shirley Williams nos Lun 10fed Tachwedd. Teitl y ddarlith fyddai 'Ysgolion yn y gymuned: canolgylch newid".

15.2 Gofynnwyd i'r aelodau hysbysu Ysgrifenyddes y Cyngor os oeddent yn dymuno mynychu.

15.3 Nid oedd unrhyw fater arall i'w drafod yn y Sesiwn Gyhoeddus.

15.4 Yna symudodd y Cyngor i'r Sesiwn Breifat.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor ddydd Gwener 6ed Chwefror 2009
yng
Nghanolfan Addysg a Chynadledda'r Hill, Y Fenni